# Tybaco a Fêps: ymgynghoriad ar becynnau, edrychiad, ac arddangos cynnyrch

## Arddangos cynhyrchion fepio, nicotin a dyfeisiau a chynhyrchion sy'n gysylltiedig â thybaco

## Asesiad cam ymgynghori o'r Effaith ar Hawliau Plant

## 1. Amcanion Polisi

Mae'r asesiad hwn yn ystyried cynigion i gyfyngu ar arddangos cynhyrchion fepio, tybaco a nicotin wrth fannau gwerthu mewn lleoliadau manwerthu yng Nghymru. Nod y polisi yw lleihau gwelededd ac apêl y cynhyrchion hyn i blant a phobl ifanc, gan gefnogi uchelgeisiau ehangach i atal pobl rhag dechrau eu defnyddio a chreu cenhedlaeth ddi-fwg.

Dim ond 2.6% o'r rhai rhwng 11 a 16 oed sy'n nodi eu bod yn ysmygu'n rheolaidd, ffigur sydd wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.[1] Fodd bynnag, ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin eraill, mae'r data'n dangos ymwybyddiaeth ac arbrofi cynyddol.

Yn achos fepio, mae'r data'n dangos defnydd cynyddol ymhlith plant a phobl ifanc gyda 6.9% o'r rhai ym mlynyddoedd 7 i 11 (11 i 16 oed) yn nodi yn 2023 eu bod yn fepio o leiaf yn wythnosol a 4.9% o ddysgwyr yn nodi eu bod yn fepio'n ddyddiol. Ymhlith plant Blwyddyn 11, roedd 16% yn fepio o leiaf unwaith yr wythnos. Mae gwahaniaethau amlwg hefyd mewn fepio yn ôl cyfoeth teuluol, gyda'r rhai yn y traean isaf o ran cyfoeth teuluol yn llawer mwy tebygol o fepio'n wythnosol (9.4%) na'r rhai yn y traean canol (7.5%) a'r traean uchaf (6%).[2]

[1] Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2024) 'Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yng Nghymru 2023/24'. Cyrchwyd y data drwy Ddangosfwrdd Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru

[2] Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2024). 'Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yng Nghymru 2023/24'. Cyrchwyd y data drwy Ddangosfwrdd Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae tystiolaeth yn dangos bod cynhyrchion fepio yn cael eu marchnata mewn ffyrdd sy'n apelio at blant a phobl ifanc drwy eu blasau, eu deunydd pacio a'r ffordd y cânt eu harddangos mewn siopau.[3]

Mae fepio yn llawer llai niweidiol nag ysmygu, ond nid yw heb risgiau. Mae cynhyrchion fepio fel arfer yn cynnwys nicotin, a gallant gynnwys sylweddau tocsig eraill sy'n niweidiol i ddefnyddwyr a'r rhai sy'n dod i gysylltiad â mwg ail-law. Mae'n debygol y bydd plant a phobl ifanc yn fwy sensitif i effeithiau negyddol ar eu hiechyd gan eu bod yn dal i ddatblygu. Mae fepio yn cynyddu pwysedd gwaed a chyfradd y galon, ac mae hefyd wedi'i ddangos ei fod yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd anadlol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddatblygu cyflyrau iechyd, megis asthma. Yn ogystal ag iechyd corfforol, mae nicotin yn sylwedd hynod gaethiwus. Mae tystiolaeth glir bod pobl ifanc yn mynd yn gaeth i fepio, gan effeithio ar berfformiad academaidd ac ymddygiad. Mae tystiolaeth hefyd bod pobl ifanc sy'n fepio yn fwy tebygol o ddechrau ysmygu.[4]

Bydd dyfeisiau cynhesu tybaco a chydau nicotin hefyd yn cael eu cynnwys o dan y cyfyngiadau arddangos arfaethedig yng Nghymru. Mae dyfeisiau cynhesu tybaco yn gynhyrchion cymharol newydd sy'n debyg iawn i fêps. Maent yn gweithio drwy ddefnyddio dyfais electronig i gynhesu tybaco. Mae astudiaethau mewn labordai yn dangos bod yr aerosol a gynhyrchir gan ddyfeisiau cynhesu tybaco yn cynnwys carsinogenau sy'n niweidiol iawn i iechyd.[5] [6]

Ymhlith y rhai rhwng 11 a 17 oed, mae ymwybyddiaeth o gynhesu tybaco wedi codi'n sylweddol o 7% yn 2022 i 24% yn 2025, ac mae 3% wedi rhoi cynnig ar dybaco wedi'i gynhesu.[7]

Cydau bach o nicotin yw cydau nicotin, sy'n cael eu rhoi yn y geg, rhwng y wefus a'r deintgig, ac sy'n rhyddhau nicotin i'r llif gwaed. Gan fod cydau nicotin yn gynnyrch newydd, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael hyd yma am eu heffeithiau posibl ar iechyd. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddant yn rhannu llawer o'r un niweidiau i iechyd sy'n gysylltiedig â nicotin â chynhyrchion fepio. Yn ogystal, mae yna niwed posibl i iechyd y geg.[8] Yn aml, gwerthir cydau nicotin mewn cynwysyddion lliwgar ac mewn amrywiaeth eang o flasau gwahanol, gan beri pryder y gallent apelio at blant.[9]

---

[3] Moodie, C et al. Cancer Research UK (2023) 'Improving our understanding of e-cigarette and refill packaging in the UK: How is it used for product promotion and perceived by consumers, to what extent does it comply with product regulations, and could it be used to better protect consumers?'

[4] Golder, S et al. (2025) *Tobacco Control*. Vaping and harm in young people: Umbrella review.

[5] Ghazi, S et al. (2022) *Tobacco induced diseases.* A scoping review of the toxicity and health impact of IQOS.

[6] Committee on Toxicity (2017) Statement on the toxicological evaluation of novel heat not-burn tobacco products.

[7] Action on Smoking and Health (ASH) ASH heated-tobacco (cyrchwyd Mehefin 2026).

[8] Rungraungrayabkul, D et al. (2024) *BMC Oral Health.* What is the impact of nicotine pouches on oral health: a systematic review.

[9] World Health Organisation (2026). WHO warns nicotine pouch brands targeting youth as sales surge.

Yn ôl Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH), mae bron 4% o blant ysgol Prydain yn dweud eu bod wedi rhoi cynnig ar gydau nicotin.[10]

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Nod Cymru Ddi-fwg, sef ein strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli tybaco, a gyhoeddwyd yn 2022, yw lleihau nifer yr oedolion sy'n ysmygu i 5% neu lai erbyn 2030. Un ffocws allweddol yw atal pobl rhag dechrau ysmygu. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i atal pobl yn eu harddegau rhag dechrau fepio a defnyddio cynhyrchion nicotin eraill. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel grŵp blaenoriaeth wrth i ni gyflawni'r strategaeth a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, megis Deddf Tybaco a Fêps 2026. Bydd yr ymgynghoriad a gynlluniwyd ar y cyfyngiadau arfaethedig yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu casglu ochr yn ochr â mewnbwn rhanddeiliaid ehangach.

Ym mis Gorffennaf 2023, cynullodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau i ymchwilio i'r cynnydd mewn fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd iechyd y cyhoedd, gofal iechyd, addysg, gwaith ieuenctid, nyrsio mewn ysgolion, iechyd yr amgylchedd, tocsicoleg, cyfathrebu a'r trydydd sector. Cynhaliodd y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc rhwng 11 a 24 oed er mwyn archwilio eu hymwybyddiaeth a'u credoau ynghylch fepio. Trafododd aelodau'r grŵp ffocws y ffaith bod fepio wedi cael ei normaleiddio ymhlith eu grŵp cyfoedion, a nodwyd eu bod yn teimlo bod cynhyrchion fepio yn cael eu dylunio a'u pecynnu i apelio at bobl ifanc. Gwnaethant hefyd drafod y ffordd y mae fepio'n effeithio ar iechyd a llesiant, gan gynnwys problemau o ran canolbwyntio, gorbryder ac archwaeth.[11]

Cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru grwpiau ffocws ar fepio hefyd, a ategodd lawer o'r un canfyddiadau, gan gynnwys y modd y mae deunyddiau pacio lliwgar a blasau ffrwythau melys yn gwneud i'r cynhyrchion ymddangos yn ddeniadol.[12]

Darparodd y grwpiau ffocws dystiolaeth ychwanegol bwysig am y pwysau cymdeithasol ar blant a phobl ifanc a'r effaith y mae fepio yn ei chael ar lesiant. Bydd adroddiadau ynghylch effeithiau fepio ar iechyd yn aml yn canolbwyntio ar niwed cymharol fepio o'i gymharu â sigaréts traddodiadol, ac ni roddir llawer o sylw i'r effaith ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc. Gwnaeth y dystiolaeth o'r grwpiau ffocws gryfhau'r achos dros gyflwyno deddfwriaeth bellach a dylanwadu ar argymhelliad y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau y byddai cyfyngu ar hysbysebu,

[10] Action on Smoking and Health (ASH) Nicotine Pouches - ASH (cyrchwyd Mehefin 2026).
[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru: Adroddiad Digwyddiad
[12] Comisiynydd Plant Cymru 2024 Fepio - Comisiynydd Plant Cymru (cyrchwyd Mehefin 2026).

pecynnu ac arddangos fêps yn fesur effeithiol iawn i fynd i'r afael â fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru.[13] Cyflwynwyd y dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Bil Cyhoeddus y Bil Tybaco a Fêps a gwnaeth ddylanwadu ar y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth.[14]

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi defnyddio'r wybodaeth o'r grwpiau ffocws a ffynonellau eraill megis y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion a Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH) i lunio gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer dysgwyr, athrawon a rhieni ysgolion uwchradd.[15] Mae'r adnoddau'n helpu rhieni ac athrawon i gael sgyrsiau gonest, cefnogol sy'n seiliedig ar ffeithiau am fepio. Mae'r adnoddau'n annog trafodaeth ynghylch y ffordd y mae dyfeisiau a chynhyrchion fepio yn cael eu pecynnu a'u marchnata. Gan y gallai fod angen help a chymorth ar rai pobl ifanc i oresgyn eu caethiwed, mae'r adnoddau'n cyfeirio at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gaeth i nicotin drwy fêps. Mae Iechyd a Llesiant yn rhan orfodol o'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i athrawon addasu eu gwersi i gyd-fynd â'r heriau penodol sy'n wynebu eu disgyblion.[16] Gallai fêps, cydau nicotin a dyfeisiau cynhesu tybaco i gyd fod yn rhan o addysg ehangach ar gamddefnyddio sylweddau. Mae'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant yng Nghymru hefyd yn cefnogi athrawon, llywodraethwyr a chymuned ehangach yr ysgol i ddatblygu polisïau ysgol effeithiol i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.[17]

Mae rhaglenni eraill sydd wedi'u hanelu at atal pobl ifanc rhag ysmygu yng Nghymru, megis y Rhaglen Byw Bywyd di-fwg, hefyd yn mynd ati'n benodol i ymgorffori fepio er mwyn adlewyrchu'r defnydd cynyddol ymhlith ieuenctid a'r marchnadoedd nicotin newidiol.

Bu llai o waith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â thybaco wedi'i gynhesu a chydau nicotin gan eu bod yn gynhyrchion cymharol newydd o hyd. Fodd bynnag, mae arolwg blynyddol ASH wedi nodi cynnydd cyflym oran ymwybyddiaeth ac arbrofi ymhlith plant a phobl ifanc. Mae ASH Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth ar-lein yn Saesneg ac yn Gymraeg am gydau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu, ac mae hefyd wedi datblygu adnoddau ar gyfer ysgolion.[18] Mae tystiolaeth yn dechrau dod i’r amlwg; Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil

[13] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru: Adroddiad Digwyddiad
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus ar gyfer y Bil Tybaco a Fêps gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau. Cyrchwyd yn: https://bills.parliament.uk/publications/55466/documents/4823
[15] Iechyd Cyhoeddus Cymru Ysmygu a fêpio - Iechyd Cyhoeddus Cymru (cyrchwyd Mehefin 2026).
[16] Llywodraeth Cymru (Hwb) Iechyd a Lles: Cyflwyniad - Hwb (cyrchwyd Mehefin 2026).
[17] Iechyd Cyhoeddus Cymru Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (WSAEMWB) (cyrchwyd Mehefin 2026).
[18] Action on Smoking and Health (ASH) Cymru Y Gwir Am Focsys Nicotin CA3 - Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (cyrchwyd Mehefin 2026).

Gymdeithasol astudiaeth yn archwilio barn y rhai rhwng 14 a 16 oed ynghylch cydau nicotin.[19]

# 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Rydym yn rhagweld y bydd cyflwyno cyfyngiadau ar arddangos cynhyrchion fepio, tybaco a nicotin wrth fannau gwerthu yn cael yr effeithiau canlynol:

## Effeithiau cadarnhaol

- Disgwylir y bydd gwneud y cynhyrchion yn llai gweladwy yn lleihau'r cysylltiad â negeseuon marchnata, gan helpu i atal unigolion rhag dechrau eu defnyddio. Dros amser, dylai hyn gyfrannu at ostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n dechrau defnyddio cynhyrchion fepio, nicotin a thybaco, gan helpu i wella iechyd, ymddygiad yn yr ysgol a chyflawniad academaidd.
- Mae'n debygol y bydd y polisi o'r budd mwyaf i blant difreintiedig, lle mae'r lefelau cysylltiad a'r niferoedd sy'n defnyddio'r cynhyrchion ar eu huchaf, gan helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac academaidd.

## Effeithiau negyddol

- Gallai gwneud y cynhyrchion yn llai gweladwy effeithio ar bobl ifanc hŷn sy'n awyddus i ddefnyddio fêps i'w helpu i roi'r gorau i ysmygu, er y byddai'r cynhyrchion yn dal i fod ar gael yn gyfreithiol i'r rhai dros 18 oed.
- Ceir risg bosibl o ymddygiadau amnewid, gyda phlant a phobl ifanc yn arbrofi â chynhyrchion hyd yn oed yn fwy peryglus neu anghyfreithlon.

Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael, ynghyd â'n gweithgarwch ymgysylltu, yn dangos bod marchnata, gan gynnwys deunyddiau pacio cynhyrchion a'r amgylcheddau lle cânt eu harddangos, yn dylanwadu'n arbennig ar blant a phobl ifanc. Maent yn cefnogi'r casgliad bod manteision clir i gyfyngu ar arddangos cynhyrchion fepio, tybaco a nicotin. Bydd effaith gadarnhaol gyffredinol drwy leihau'r broses o normaleiddio ymddygiadau sy'n gysylltiedig â fepio ac ysmygu, ac atgyfnerthu'r neges iechyd cyhoeddus nad yw'r cynhyrchion hyn wedi'u bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc.

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl, bydd cyfathrebiadau iechyd cyhoeddus yn gwahaniaethu rhwng defnyddio fêps i helpu oedolion i roi'r gorau i ysmygu, a negeseuon sydd wedi'u hanelu at blant, pobl ifanc a phobl nad ydynt yn ysmygu. Mae gwasanaethau, fel Helpa Fi i Stopio a DAN 24/7 yn cynnwys cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc i'w helpu i roi'r gorau i fepio ac ysmygu.

Mae'r rheoliadau ynghylch cyfyngiadau arddangos yn cynnwys ystod eang o gynhyrchion, gan gynnwys dyfeisiau cynhesu tybaco a chydau nicotin, er mwyn

[19] National Centre for Social Research (2025) Young people's views of nicotine pouches in the UK (cyrchwyd Mehefin 2026).

lleihau'r risg y bydd unigolion sy'n fepio yn newid i ddefnyddio cynhyrchion niweidiol eraill. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes gorfodi, gan gynnwys Safonau Masnach Cymru, i atal plant a phobl ifanc rhag cael gafael ar gynhyrchion anghyfreithlon.

Bydd canllawiau i fanwerthwyr a'r rhai sy'n gorfodi'r cyfyngiadau yn sicrhau dull gweithredu cyson.

Mae'r cynnig yn cefnogi erthyglau allweddol y CCUHP:

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP** | **Yn gwella (X)** | **Yn herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) | X | | Mae cydberthynas gref rhwng defnyddio fêps ac anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae nifer y siopau fêps yn y DU wedi cynyddu'n sydyn yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu perthynas gref rhwng amddifadedd a nifer y siopau fêps. Mae data o Loegr wedi dangos bod dros dair gwaith yn fwy o siopau fêps yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig nag yn y 20% lleiaf difreintiedig.[20]<br><br>Mae hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llawer mwy tebygol o ddod i gysylltiad â dulliau siopau o hysbysebu a hyrwyddo fêps, na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy cyfoethog. Mae cyflwyno cyfyngiadau ar farchnata cynhyrchion fêps wrth fannau gwerthu yn lleihau cysylltiad rheolaidd â negeseuon masnachol ymhlith plant a phobl ifanc, gan greu amgylcheddau mwy cyfartal. |

[20] Zied Abozied, E et al. (2025). Ghost Towns: The Decline of the High Street and Health Inequalities.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) | X | | Mae lleihau cysylltiad plant a phobl ifanc â chynhyrchion niweidiol megis fêps, cydau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu drwy gyfyngu ar y ffordd y cânt eu harddangos yn amlwg er lles pennaf y plentyn, drwy atal caethiwed ac effeithiau sylweddau tocsig ar iechyd. Bydd plant a phobl ifanc sydd eisoes yn gaeth i'r cynhyrchion sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau yn cael eu cefnogi. |
| Erthygl 12 (yr hawl i blant gael dweud eu dweud mewn ymgynghoriad ac i'w barn gael ei hystyried) | X | | Ceisiwyd barn plant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r cynigion hyn. Maent wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu am effaith fêps ar iechyd, eu hargaeledd, a pha mor gyffredin ydynt. Mae tystiolaeth hefyd yn dod i'r amlwg o bryder ynghylch cydau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu. |
| Erthygl 13 (yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth) | X | X | Mae arbrofi yn cynyddu yn ystod llencyndod wrth i bobl ifanc ddatblygu eu hunaniaeth a ffurfio grwpiau cyfeillgarwch newydd. Efallai y bydd rhai yn ystyried defnyddio fêps, cydau nicotin neu dybaco fel rhan o daith bywyd. Drwy guddio'r cynhyrchion hyn o'r golwg, mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio ac nad oes ymddiriedaeth ynddynt i wneud eu penderfyniadau eu hunain.<br><br>Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r hawl hon â'r angen i amddiffyn plant a phobl ifanc, a allai fod yn arbennig o agored i effeithiau andwyol y cynhyrchion hyn ar eu hiechyd.<br><br>Dylai plant a phobl ifanc allu cael gafael ar wybodaeth i ddysgu am fepio, cydau nicotin a dyfeisiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cynhesu tybaco mewn ffordd onest ac anfeirniadol fel rhan o gwricwlwm yr ysgol a thrwy sianeli gwybodaeth eraill, fel y gallant ffurfio eu safbwyntiau a'u barn eu hunain. |
| Erthygl 17 (yr hawl igael gafael ar wybodaeth gan y cyfryngau) | X | | Mae sefydliadau megis Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ASH Cymru yn datblygu gwybodaeth glir a chywir am effeithiau fêps, cydau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu ar iechyd. Mae Helpa Fi i Stopio yn datblygu adnoddau penodol i bobl ifanc i'w cefnogi i roi'r gorau i arferion tybaco a nicotin. |
| Erthygl 18 (dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi) | X | | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi Gwybodaeth i rieni a gofalwyr am fepio. Mae gan ASH Cymru hefyd hyb ar-lein sy'n llawn cyngor i rieni sy'n pryderu am eu plentyn yn ysmygu, yn fepio neu'n defnyddio cynhyrchion nicotin.[21] |
| Erthygl 29 (yr hawl i addysg i gefnogi datblygiad plant) | X | | Gall presenoldeb fêps, cydau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu yn amgylchedd yr ysgol effeithio ar addysg pobl ifanc drwy dynnu eu sylw oddi wrth eu hastudiaethau, amharu ar eu presenoldeb neu eu hymddygiad, neu eu hamlygu i fwlio neu bwysau gan gyfoedion.<br><br>Mae grwpiau ffocws ac arolygon ymhlith plant ac athrawon wedi dangos bod fepio yn effeithio ar y gallu i ganolbwyntio yn y dosbarth. Yn ogystal, ceir effaith ymddygiadol, gan fod plant yn aml yn defnyddio |

[21] Action on Smoking and Health (ASH) Nico-arddegau - Cymorth i Rieni neu Ofalwyr sy'n Pryderu am Anweddu neu Ysmygu (cyrchwyd Mehefin 2026).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fêps yn anghyfreithlon ar dir yr ysgol, sydd hefyd yn amlygu plant eraill. |
| Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) | X | | Mae cyfyngiadau o ran arddangos yn lleihau argaeledd, apêl a hygyrchedd cynhyrchion fepio, nicotin a thybaco ymhlith plant a phobl ifanc. Mae hyn yn eu diogelu rhag niwed caethiwed i nicotin a'r risgiau iechyd cysylltiedig.<br><br>Mae fepio yn cynyddu pwysedd gwaed a chyfradd y galon, ac mae hefyd wedi'i ddangos ei fod yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd anadlol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddatblygu cyflyrau iechyd, megis asthma.<br><br>Mae'n debygol bod cydau nicotin yn rhannu llawer o'r un effeithiau ar iechyd â fepio. Yn anecdotaidd, mae'r sgil-effeithiau a nodir yn cynnwys cyfog, chwydu, cur pen a phendro.[22]<br><br>Mae dyfeisiau cynhesu tybaco yn cynnwys carsinogenau a sylweddau tocsig eraill sy'n niweidiol iawn i iechyd. |
| Erthygl 33 (camddefnyddio cyffuriau) | X | X | Mae'r cynhyrchion sydd o fewn cwmpas y cyfyngiadau arddangos yn anghyfreithlon i'r rhai dan 18 oed. Gall fêps anghyfreithlon gynnwys sylweddau anghyfreithlon, megis canabis, canabinoidau synthetig, neu sylweddau seicoweithredol eraill. Gallai pobl ifanc eu |

[22] Action on Smoking and Health (ASH) Nicotine pouches - ASH (cyrchwyd Mehefin 2026)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | defnyddio'n fwriadol neu'n ddiarwybod, a gallai hynny gael goblygiadau iechyd difrifol.<br><br>Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai pobl ifanc yn defnyddio fêps untro a all, naill ai'n fwriadol neu'n ddiarwybod iddynt, gynnwys sylweddau anghyfreithlon, ac y gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol i'w hiechyd ac o ran y gyfraith.<br><br>Mae risg y gallai cyfyngiadau o ran arddangos annog plant a phobl ifanc i chwilio am gynhyrchion o ffynonellau anghyfreithlon. |
| Erthygl 36 (camfanteisio) | X | | Mae arddangosfeydd cynhyrchion fepio wrth y man gwerthu yn arf marchnata allweddol a all dargedu neu ddylanwadu'n anghymesur ar blant a phobl ifanc, gan beri risg o gamfanteisio'n fasnachol ar blant fel defnyddwyr. |

Ni allwn ragweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar Hawliau Dinasyddion yr UE i'r rhai dan 18 oed. Mae'r cynigion yn berthnasol i bawb ac yn canolbwyntio ar ddiogelu iechyd y cyhoedd, ni waeth beth fo cenedligrwydd na statws unigolyn.

## 4. Cyhoeddi'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Cyhoeddir yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant drafft hwn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad a'r safbwyntiau a geisiwyd ynghylch yr asesiadau effaith.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Bydd barn plant a phobl ifanc yn cael ei cheisio fel rhan o'r cynigion hyn. Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru ac ysgolion i wneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau i reoliadau a wneir o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfleu'n glir. Byddwn hefyd yn ceisio cyngor ar ymgysylltu â phlant difreintiedig neu blant sy'n anoddach eu cyrraedd. Fel rhan o'n gwaith cyfathrebu, byddwn yn sicrhau bod canllawiau a gwybodaeth glir a hygyrch ar gael i blant a phobl ifanc, rhieni neu ofalwyr, ac athrawon.

# 6. Monitro'r polisi ac adolygu'r effaith

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei fonitro drwy'r canlynol:

- Tueddiadau o ran fepio a defnyddio cydau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu ymhlith pobl ifanc, gan ddefnyddio adnoddau megis Dangosfwrdd Data Ysgolion Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arolwg blynyddol ASH o blant 11 i 17 oed.
- Gwerthuso data cydymffurfio a gorfodi
- Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys â phobl ifanc.

Bydd yr asesiad effaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl i'r ymgynghoriad ddigwydd ac ar ôl i'r ymatebion gael eu dadansoddi.